



Ysgol Pentreuchaf

156. POLISI PRIN GYFLENWI

1.0 Golwg gyffredinol

- 1.1** Ers Medi 2009, bu'n ofynnol i ysgolion sicrhau nad oes angen i athrawon ond **'prin gyflenwi'** dros gydweithwyr sy'n absennol.
- 1.2** Mae'r ddarpariaeth gytundebol yn berthnasol i bob athro, yn cynnwys athrawon ar y raddfa arweinyddiaeth, boed ar gytundebau parhaol, tymor sefydlog neu dros dro a pro-rata i athrawon ar gytundebau rhan amser. Mae hefyd yn berthnasol i benaethiaid.
- 1.3** Mae felly'n ofynnol bod llywodraethwyr yn gweithredu system gadarn o gyflenwi, nad ydyw'n ddibynnol ar athrawon yn yr ysgol yn cyflenwi. Fodd bynnag, nid yw'r gofyn hwn yn berthnasol i athrawon a gyflogir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i gyflenwi.
- 1.4** Mae'r ysgol hon wedi ymrwymo i weithredu'n llawn y gofyn statudol ar gyflenwi a nodir o dan Adran 63.10 o STPCD 2010 heb amharu ar hawliau eraill athrawon megis yr amser PPA ar gyfer athrawon a warentir yn yr ysgol.
- 1.5** Mae llywodraethwyr yn sylweddoli mai bwriad y ddarpariaeth hon oedd lleihau baich gwaith athrawon a bydd felly'n, parchu ysbryd yn ogystal â llythyren y darpariaethau statudol. Gan fod yr ysgol hon wedi ymrwymo i ddarparu addysgu a dysgu o'r ansawdd uchaf ar gyfer ei holl ddisgyblion, mae llywodraethwyr o'r farn mai'r ffordd orau o wneud hynny yw trwy i bob dosbarth gael ei ddysgu gan athro cymwys, gyda chefnogaeth cymorthyddion dysgu. Mae llywodraethwyr hefyd wedi ymrwymo i ddefnyddio pob strategaeth arall resymol cyn, ac mae hynny'n eithriad, gofyn i un o'r athrawon gyflenwi.
- 1.6** Bydd yr ysgol yn cytuno ar galendr gydag aelodau'r staff cyn dechrau pob blwyddyn ysgol. Er gall bydd angen newidiadau yn ystod y flwyddyn, ni ddylai hynny ddigwydd yn aml. Er mwyn sicrhau dealltwriaeth eglur, bydd y calendr yn darparu, o leiaf:
- amserlen dysgu blynyddol ar gyfer pob athro,
 - cyfeiriad at gyfarfodydd staff a
 - chyfeiriad at gyfrifoldebau ynghylch cyfarfodydd rhieni

2.0 Diffiniad o 'Prin Gyflenwi'

- 2.1** Caiff **'Prin Gyflenwi'** ei ddehongli fel golygu na ofynnir i athro ond gyflenwi mewn **argyfwng** neu mewn amgylchiadau **eithriadol – nas gellir eu rhagweld.**
- 2.2** Mae **'amgylchiadau anrhagweladwy'** ar gyfer yr ysgol yn cynnwys y rhai sy'n anrhagweladwy ar sail profiadau hanesyddol, profiad lleol arferol a'r patrwm o ddarpariaeth addysgol sy'n esblygu yn yr ysgol. **Ni fyddant ond yn digwydd yn yr amgylchiadau prin hynny nad ydynt yn hanesyddol erioed wedi digwydd yn yr ysgol o'r blaen, ac na ellid yn rhesymol fod wedi eu rhagweld.**

3.0 Adrodd ynghylch Absenoldeb

- 3.1** Mae'r ysgol hon yn disgwyl i staff wneud pob ymdrech i hysbysu o'u habsenoldeb yn unol â gweithdrefnau ysgol cytunedig, fel y gellir cael staff cyflenwi. Fodd bynnag, sylweddolir na all hyn fod yn bosibl, mewn amgylchiadau eithriadol.

4.0 Amgylchiadau Neilltuol bydd y Polisi Cyflenwi hwn yn Berthnasol

4.1 Dosbarthiadau wedi eu Rhannu- Gall dosbarth ble mae'r athro sy'n gyfrifol amdano yn absennol, gael ei rannu ac ymuno â dosbarthiadau eraill. Gan fod hwn yn ffurf ar gyflenwi, ni fydd rhannu dosbarthiadau yn awr ond yn digwydd ar adegau 'prin' a phan fo strategaethau cyflenwi eraill wedi methu.

4.2 Ymweliadau Addysgol- Gan mai gweithgareddau wedi eu cynllunio yw ymweliadau addysgol, ni ofynnir i athrawon gyflenwi os yw cydweithiwr yn absennol ar ymweliad, oni cheir argyfwng. Ni fydd yr ysgol hon, fodd bynnag, yn ceisio lleihau nifer yr ymweliadau addysgol yn sgîl y darpariaethau cyflenwi gan ein bod yn sylweddoli gwerth addysgol gweithgareddau o'r fath i ddisgyblion.

5.0 Strategaethau Cyflenwi

5.1 Mae'r strategaethau cyflenwi wedi eu gwreiddio'n gadarn yn yr egwyddor mai athrawon llanw neu athrawon cyflenwi cymwys sydd fwyaf addas i gyflenwi dros athrawon sy'n absennol.

5.2 Bydd yr ysgol yn defnyddio'r strategaeth ganlynol yn y drefn ganlynol, pan fo angen cyflenwi yn ystod absenoldeb:

5.2.1 Cam 1 Defnyddio 'athro cyflenwi' sydd ar gael neu wneud pob ymdrech i sicrhau athro i gyflenwi. Mae'r strategaeth hon yn hanfodol ar gyfer absenoldeb yn y tymor canol a'r hir dymor, er y caiff ei ddefnyddio ble bynnag bo modd mewn achos o absenoldeb byr dymor hefyd.

5.2.2 Cam 2 Ble nad oes athro cyflenwi neu lanw ar gael, gellir defnyddio cymhorthyddion dysgu HLT sydd wedi eu hyfforddi ond dros y cyfnod byrraf posibl yn unig nes bod athro cymwys ar gael.

5.2.3 Mae llywodraethwyr yn sylweddoli bod cyfyngiadau ar yr amgylchiadau ble gellir defnyddio cymhorthydd dysgu i gyflawni yr hyn a elwir yn "**waith penodol**". Caiff gwaith penodol ei ddiffinio yn **Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodol a Chofrestru) (Lloegr) 2003 fel:**

- a) cynllunio a paratoi gwersi a chyrsgiau ar gyfer disgyblion;
- b) cyflwyno gwersi i ddisgyblion. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddo naill ai trwy ddysgu o bell neu dechnegau gyda chymorth cyfrifiaduwr;
- c) asesu datblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion, ac
- d) adrodd ar ddatblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion.

5.2.4 Mae'r Rheoliadau'n amlinellu, (yn ychwanegol at bod y dyletswyddau hyn yn cael eu cyflawni gan gymhorthydd dysgu HTLA sydd wedi ei hyfforddi ac **mae'r pennaeth yn fodlon ei bod yn meddu ar y sgiliau, arbenigedd a phrofiad**), na ddylai cymhorthydd dysgu HTLA-sydd wedi ei hyfforddi ond ymgymryd â gwaith 'penodol':

- i gefnogi a chynorthwyo athro/athrawes gymwys;
- o dan oruchwyliaeth athro/athrawes gymwys.

5.2.5 Gellir cyfarwyddo cymhorthydd dysgu sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant HTLA i gyflawni gwaith penodol o fewn y cyfyngiadau a restrir uchod. Os nad ydynt, ni allant ond darparu goruchwyliaeth cyflenwi.

5.2.6 Cam 3 Ble nad yw'r dewisiadau uchod ar gael, ac o dan amgylchiadau arbennig, gellir defnyddio

goruchwylwyr cyflenwi - nad ydynt wedi eu hyfforddi'n HLTA- ond sydd, yn farn y pennaeth, yn abl i ysgwyddo'r fath gyfrifoldeb, i gyflenwi am yr amser byrraf posibl nes bod athro/athrawes cyflenwi neu lanw yn cyrraedd. Mae Llywodraethwyr yn derbyn bod goruchwyliaeth cyflenwi yn golygu pan na geir addysgu gweithredol a bod disgyblion yn cyflawni, o dan oruchwyliaeth, waith sydd wedi cael ei baratoi ymlaen llaw.

5.2.7 Cam 4 Dim ond mewn argyfyngau, ble nad oes un o'r dewisiadau uchod ar gael, bydd athrawon yn cael eu cyfarwyddo i gyflenwi. Bydd unrhyw ofyn i gyflenwi yn cael ei gyd-rannu'n gyfartal ymhlith yr holl staff, yn cynnwys y pennaeth, a bydd yr ysgol yn cadw cofnod o'r cyflenwi a bydd ar gael i'w archwilio.

6.0 Gosod Gwaith

6.1 Ni fydd y pennaeth yn gosod beichiau gormodol o ran cynllunio, paratoi ac asesu ar athrawon sy'n absennol.

6.2 Ble bwriedir bod yn absennol, disgwylir i'r athro roi manylion llawn o'r gwaith bydd y disgyblion yn ei gyflawni yn ystod gwersi llanw.

6.3 Mewn achos o absenoldeb na fwriedid, disgwylir i athrawon, ble bynnag bo modd, roi manylion o'r gwaith a gyflawnir gan ddisgyblion. Os nad oes modd gwneud hynny, bydd gan yr ysgol weithdrefnau ar gyfer sicrhau parhad gwaith.

6.4 Mae'r llywodraethwyr yn disgwyl i athrawon cyflenwi/llanw gymryd rhan mewn addysgu gweithredol yn ystod gwersi llanw. Yn achos cyflenwi dros gyfnod byr, bydd hyn yn cynnwys cyflwyno cynlluniau gwersi a ddarperir. Yn achos cyflenwi dros y tymor canolig/hir dymor, bydd disgwyl i athrawon cyflenwi/llanw ymgymryd â 'gwaith penodol', yn cynnwys cynllunio, paratoi, trosglwyddo, asesu, cofnodi ac adrodd.

7.0 Trefniadau Absenoldeb gyda chaniatâd

7.1 Mae Llywodraethwyr yn sylweddoli, a derbyn na all athrawon gymryd seibiant blynyddol o'u gwaith fel y gall gweithwyr mewn galwedigaethau eraill, mae amgylchiadau ble bydd angen i athrawon wneud cais am amser i ffwrdd gyda thâl yn ystod y diwrnod ysgol. Sylweddolant bod polisi'r ysgol ar 'Absenoldeb gyda Chaniatâd' yn rhan o gytundebau athrawon ac y bydd yn parhau i fod yn weithredol. Bydd ceisiadau rhesymol am amser i ffwrdd gyda thâl yn unol a'r polisi yn dal i gael ei ystyried.

8.0 Monitro ac Arfarnu'r Polisi

8.1 Bydd y pennaeth neu aelod o'r uwch dîm rheoli yn monitro effeithiolrwydd y polisi hwn bob tymor ac yn adrodd i'r corff llywodraethol er mwyn sicrhau bod y system yn gweithio er budd disgyblion a staff.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____